Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

PWYLLGOR CYNLLUNIO

10.00 AM - DYDD MAWRTH, 21 MAI 2024

CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR, PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS

RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD

Gweddarlledu/Cyfarfodydd Hybrid:
Gellir ffilmio'r cyfarfod hwn i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach drwy wefan y cyngor. Drwy gymryd rhan, rydych yn cytuno i gael eich ffilmio ac i'r delweddau a'r recordiadau sain hynny gael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a/neu hyfforddiant o bosib

Rhan 1

1. Cyhoeddiad y Cadeirydd

2. Datganiadau o fuddiannau

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 8)*

4. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

Adroddiad/au gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

Adran A - Materion i'w Penderfynu

Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth

5. Cais rhif. P2023/0960 - 40 Pentwyn, Heol Baglan
(Tudalennau 9 - 26)
Estyniad llawr cyntaf, estyniad ochr un llawr, tŷ allan un llawr a wal gynnal arfaethedig gydag estyniad i'r dramwyfa yn 40 Pentwyn

Heol Baglan, Baglan.

Adran B - Materion Er Gwybodaeth

6. Apeliadau a Dderbyniwyd - 18 Mawrth 2024 - 13 Mai 2024
(Tudalennau 27 - 28)

7. Penderfyniadau Dirprwyedig - 18 Mawrth 2024 - 13 Mai 2024
(Tudalennau 29 - 48)

8. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100BA(6)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

K.Jones
Prif Weithredwr

Canolfan Ddinesig
Port Talbot **Dydd Mercher, 15 Mai 2024**

Aelodaeth Pwyllgor:

Cadeirydd: **Y Cynghorydd J.Jones**

Is-Gadeirydd: **Y Cynghorydd T.Bowen**

Aelodau: Y Cynghorydd S.Paddison, D.Keogh, R.Davies, H.Davies, C.James, C.Jordan, S.Thomas, R.Mizen, P.Rogers a/ac A.R.Aubrey

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd W.F.Griffiths

Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.